Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
E-bost

18 Hydref 2018

Annwyl Dai,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

Cyn i'n pwyllgorau priodol graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20, roeddwn am ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am ddull arfaethedig y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Ysgrifennais at Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet perthnasol Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2018 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu. Mae fy llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi, a gall fod o ddiddordeb i chi o ystyried natur drawsbynciol ein cylchoedd gwaith. Er mwyn osgoi dyblygu ymdrech yn ddianghenraid, os oes materion sy'n berthnasol i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant yr hoffech i ni eu cynnwys yn ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, rhowch wybod i mi.

Roeddwn hefyd am dynnu eich sylw, yn sgil ein hymchwiliad diweddar i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a chanfyddiadau ein hadroddiad Cadernid Meddwl, mai un o'r meysydd rydym yn debygol o ganolbwyntio arnynt yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Eto, os oes materion penodol sy'n ymwneud ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yr hoffech i ni roi sylw iddynt, cysylltwch â ni.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi ac y bydd yn ein galluogi i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol â'n gilydd.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd